





Priodasau

Y Lle Perffaith ar gyfer eich Diwrnod Perffaith



Traeth a Pharc Gwledig Pen-bre Pembrey Country Park & Beach

PARC GWLEDIG PEN-BRE, PEN-BRE,
SIR GAERFYRDDIN. SA16 0EJ



Llongyfarchiadau ar eich dyweddïad. Rydych bellach yn barod i drefnu eich diwrnod arbennig!

Dewiswch Barc Gwledig Pen-bre sy'n unigryw, yn gyfleus ac yn rhyfeddol o dawel.

Mewn lleoliad heb ei ail ar arfordir gorllewin Cymru, rydym yn darparu lle trawiadol er mwyn ichi ddathlu gwledd eich priodas, a hynny yng nghanol golygfeydd syfrdanol o Draeth a Pharc Gwledig Pen-bre

Beth bynnag yw eich cynlluniau ar gyfer eich diwrnod mawr, dewch i Barc Gwledig Pen-bre er mwyn cael diwrnod hynod o arbennig.

Rydym yn cynnig llond gwlad o leoliadau eithriadol - o fannau dan do traddodiadol i'r awyr agored a hynny yng nghanol man diarffordd yn y coetiroedd. Gallwn ddarparu ar gyfer digwyddiadau o bob math, o achlysuron cartrefol gyda chriw bach o deulu a ffrindiau i bartïon mwy yn y goedwig.





Eich diwrnod perffaith

Mae priodasau coetir yn dod yn fwyfwy poblogaidd a dyma fath o briodas a fydd yn sicr o fod yn hudol ac yn unigryw.

Beth am dreiddio i'r coed a chael priodas wirioneddol naturiol? Gallwn ddarparu cydlynydd i oruchwylio'r diwrnod ei hun yn ogystal â'r cyfnod sy'n arwain at eich diwrnod arbennig.

Byddwn yn cyfarfod â chi ymhell cyn y digwyddiad i drafod amserau, cyfleusterau a chynnig unrhyw gymorth i greu eich pecyn unigryw. Byddwn hefyd yn sicrhau bod eich diwrnod yn hwylus a'ch bod yn gysurus.

Bydd apêl naturiol y coetir yn syfrdanu gwesteion ac yn cyfrannu at ddiwrnod priodas cofiadwy



Bendithiad rhwng y Coed

Mae rhywbeth gwirioneddol hudolus am ganopi coediog a chynnal gwledd briodas yn llythrennol o dan y sêr.

Gall y briodferch a'r priodfab ymdreiddio i'w personoliaethau creadigol a hynod, a chanolbwyntio ar y manylion.

Roeddem am greu man sy'n gallu newid o wythnos i wythnos i greu priodasau sy'n hollol wreiddiol.

P'un a ydych chi'n dewis pabell fawr neu bebyll tipi neu ddim ond lle agored, mae gennym le sy'n addas i bawb.

Lleoliad priodas unigryw a hynod o ramantus yn y coedtir

Llogi cae â phabell fawr

Mae rhywbeth gwirioneddol hudolus am naws awyr agored ar gyfer eich diwrnod arbennig.

Rhowch ryddid i'ch dychymyg fynd ar ras i wneud y lleoliad yn lle perffaith ichi. Rhyfeddwch eich gwesteion â'ch addurniadau a'ch steil unigryw.

Gall y briodferch a'r priodfab ymdreiddio i'w personoliaethau creadigol a hynod, a chanolbwyntio ar y manylion.

P'un a ydych chi'n dewis pabell fawr neu bebyll tipi neu ddim ond lle agored, mae gennym le sy'n addas i bawb.


I gael dathliad arbennig iawn, beth am i chi a'ch gwesteion dreulio'r noson mewn pabell gloch?





Priodas ar y Traeth





Nid oes angen i chi fynd dramor i gael priodas berffaith ar y traeth.
Mae traeth euraidd Cefn Sidan yn ymestyn am 8 milltir ac mae'n lleoliad delfrydol ar gyfer eich diwrnod arbennig a hudolus.

"Ar lan y môr mae 'nghariad innau"



Yr Orsaf
priodas â seremoni briodas

Adeilad trwyddedig ym Mharc Gwledig Pen-bre yw Yr Orsaf lle gallwch ddweud 'Gwnaf' o flaen eich holl westeion.

Mae'n addas ar gyfer grŵp bach clyd neu i hyd at 50 o westeion ar gyfer y seremoni. Dyma gynfas gwag er mwyn ichi ei addurno yn ôl eich steil a'ch chwaeth eich hun

Gallwn ddarparu ar gyfer hyd at 80 o westeion yn ystod gwledd eich priodas a hyd at 100 o westeion ar gyfer eich dathliad gyda'r hwyr.

Fel arall mae gennych y parc cyfan i ddewis ardal ar gyfer seremoni awyr agored

"Mi gerddaf gyda thi beth bynnag ddaw"

Yr Orsaf

Yr ystafell ddigwyddiadau a'r bwyty

Llogi'r lleoliad - y tymor prysur:	£3000
Llogi'r lleoliad - y tymor llai prysur:	£1500
Pryd tri chwrs yn y wledd briodas:	o £30 y pen
Bwffe gyda'r hwyr:	o £12.50 y pen





Lluniau o'ch Diwrnod Arbennig

Mae gan Draeth a Pharc Gwledig Pen-bre lawer o fannau i dynnu lluniau gwych o'ch priodas a fydd i'r dim yn cyfleu eich diwrnod arbennig.



Os ydych chi wrth eich bodd â natur a chyda'r math hwn o leoliad, cewch eich synnu ar yr ochr orau o'r harddwch a fydd yn y lluniau priodas.

Dyma ardal sydd â llawer o wahanol leoedd i ddal naturioldeb eich diwrnod arbennig p'un ai yw yng nghanol y coetiroedd neu ar draeth Cefn Sidan. Mae'r dewisiadau'n ddiddiwedd







Y Pecynnau Priodas

Pecyn Efydd

Yr ardal yn y parc ar gyfer seremoni'r bendithiad yn gynwysedig

Parcio am ymwelwyr yn gynwysedig

Nid yw'n cynnwys: Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, trwyddedau (alcohol, Hysbysiadau am Ddigwyddiadau Dros Dro, cerddoriaeth), unrhyw waith o ran trefnu'r diwrnod priodas

Cae Saethyddiaeth - llogi am 3 diwrnod	£1500.00 + TAW
Cae Mynachod - llogi am 3 diwrnod	£2250.00 + TAW
Cae Saethyddiaeth - llogi am 1 wythnos	£2500.00 + TAW
Cae Mynachod - llogi am 1 wythnos	£3750.00 + TAW

Ni ellir gwarantu y bydd lle ar gael. *Mae'r telerau ac amodau yn berthnasol

Pecynnau Priodas yn parhau...

Pecyn Arian - £1158

Y pecyn efydd ac 1 aelod penodol o'r tîm i arwain y gwesteion, arwyddion i'r briodas

Trefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a thrwyddedau (alcohol, Hysbysiadau am Ddigwyddiadau Dros Dro, cerddoriaeth) neu llogi maes.

Nid yw'r canlynol wedi'u cynnwys: ychwanegiadau eraill a ddewisir
Ni ellir gwarantu y bydd lle ar gael.

*Mae'r telerau ac amodau yn berthnasol

Y pecyn aur - £3000

Y pecynnau efydd ac arian yn ogystal â'r pecyn arlwyo a thîm cyfan o staff i drefnu eich diwrnod

Gan gynnwys; Derbyn danfoniadau fel pabell fawr ac ati, a sefydlwyd ymlaen llaw, ar y diwrnod a'r diwrnod ar ôl i oruchwylio casgliadau.

Nid yw'r canlynol wedi'u cynnwys: unrhyw ychwanegiadau eraill neu llogi maes.

Ni ellir gwarantu y bydd lle ar gael.

*Mae'r telerau ac amodau yn berthnasol

"gallwn deilwra eich diwrnod yn ôl eich cyllideb a'ch gofynion"





Arlwyo ar gyfer eich diwrnod arbennig

Os ydych yn chwilio am naws draddodiadol, bwydlen fwy gwladaidd, bwyd stryd neu de prynhawn traddodiadol, gallwn ddarparu ar eich cyfer.

"Does dim byd yn rhy fawr neu'n rhy fach i ni!"









Y Dewisiadau Arlwyo sydd ar gael

Bwyd stryd (y fwydlen wedi'i theilwra i'r cwsmer)	O £10 y pen
Pitsa wedi'i grasu ar goed tân	O £10 y pen
Picnic/Te prynhawn	O £12.50 y pen
Brecwast	O £5 y pen
Te a Choffi	O £2 y pen
Llogi'r bar -	Dim tâl am logi'r bar
Diodydd o'r bar	Tâl ychwanegol
Tâl gweini	£6 y botel
Pryd tri chwrs yn y wledd briodas:	£30 y pen (Yr Orsaf yn unig)
Bwffe gyda'r hwyr:	£12.50 y pen

Elfennau Unigryw

Yr elfennau bach ychwanegol hynny sy'n gwneud eich diwrnod yn hollol unigryw. Oherwydd ein darparwyr dibynadwy gallwn wireddu unrhyw gais - mae pob dymuniad yn cael ei fodloni. O oleuadau bach trawiadol, ceisiadau am fwydlenni neilltuol, pebyll tipi, pebyll cloch a phebyll mawr ar y safle, bwydydd creadigol gyda'r hwyr ar y safle wedi'u coginio dros dân coed, gorsafoedd bwyd, addurniadau arbenigol, cynllunio'r briodas a llawer mwy – gofynnwch inni.

Llogi Pabell Fawr	POE
Llawr	POE
Llogi pabell tipi/pabell ymestyn	POE
Pebyll cloch	POE
Byrddau Picnic	POE
Byrddau	POE
Cadeiriau	POE
Goleuadau garlant	POE
Llogi toiledau	POE
Llogi cawodydd	POE
Diogelwch	POE
Biniau ailgylchu	£12.00
Biniau gwastraff cyffredinol	£22.00
Defnyddio Pwynt Elsan	£120.00
Wi-Fi	£500.00
Defnyddio trydan - 3 diwrnod	£300.00
Defnyddio trydan - 1 wythnos	£500.00
Llogi generadur - 3 diwrnod	£250.00
Llogi generadur - 1 wythnos	£500.00
Generadur - tanwydd atodol	£20.00
Glanhau ar ôl y briodas	£216.00

"mae elfennau ychwanegol ar gael ar gais"



Parc Gwledig Pen-bre
Pen-bre
Sir Gaerfyrddin
SA16 0EJ

Cysylltwch â ni i gael prisiau am ddathliadau priodas unigryw

Rhif ffôn: 01554 742435

Cyfeiriad e-bost: gwybodaethpenbre@sirgar.gov.uk

